

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor  
Dyddiad: Dydd Mawrth, 29 Ionawr 2019 Kath Thomas – Dipwrwy Glerc  
Amser: 09.15 0300 200 6565  
[SeneddDeisebau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru)

---

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant (Tudalennau 1 – 38)

### 2 Deisebau newydd

2.1 P-05-855 Adolygiad o ryddhad ardrethi busnesau bach  
(Tudalennau 39 – 46)

2.2 P-05-856 Rhaid gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol yng Nghymru (Cyfraith Lucy)  
(Tudalennau 47 – 59)

2.3 P-05-857 Dylid creu Tasglu Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Plant  
(Tudalennau 60 – 68)

2.4 P-05-860 Dylid gwneud Gwersi Sgiliau Bywyd yn Orfodol ar y cwricwlwm  
(Tudalennau 69 – 76)

2.5 P-05-861 Gwneud addysg wleidyddol yn elfen orfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol newydd  
(Tudalennau 77 – 85)

### 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### Yr Amgylchedd

3.1 P-05-778 Amddiffyn Cyllyll Môr ar Draeth Llanfairfechan  
(Tudalennau 86 – 89)



- 3.2 P-05-815 Rheoli'r Diwydiant Dofednod Dwys Sy'n Ehangu'n Gyflym yng Nghymru  
(Tudalennau 90 – 99)
- 3.3 P-05-837 Ynni Gwyrdd er Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru  
(Tudalennau 100 – 108)
- 3.4 P-05-839 Dylid troi canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ynghylch llygredd aer yn gyfraith yng Nghymru a chyflwyno Deddf Aer Glân newydd i Gymru  
(Tudalennau 109 – 116)

## **Addysg**

- 3.5 P-05-783 Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg e.e. Seicoleg TGAU  
(Tudalennau 117 – 124)

## **Yr Economi a Thrafnidiaeth**

- 3.6 P-05-793 Band eang cyflym i bentref Llangenni  
(Tudalennau 125 – 127)
- 3.7 P-05-824 Ffordd Osgoi Derwen Brimmon y Drenewydd  
(Tudalennau 128 – 130)

## **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

- 3.8 P-05-797 Sicrhau mynediad i'r feddyginiaeth ffibrosis systig, Orkambi, fel mater o frys  
(Tudalennau 131 – 135)
- 3.9 P-05-842 Rhowch lais i bobl ifanc yn y broses o gomisiynu gwasanaethau lleol yng Nghymru  
(Tudalennau 136 – 145)

## **Llywodraeth Leol**

- 3.10 P-05-806 Rydym yn galw am roi rhif Tystysgrif Mynediad i bob safle busnes yng Nghymru, yn debyg i'r Dystysgrif Hylendid Bwyd  
(Tudalennau 146 – 153)
- 3.11 P-05-843 Mwy o hawliau trydydd parti mewn apeliadau cynllunio  
(Tudalennau 154 – 162)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



## **P-05-855 Adolygiad o ryddhad ardrethi busnesau bach**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Endaf Cooke & Gavin Owen, ar ôl casglu 310 o lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r system rhyddhad ardrethi busnesau bach fel bod busnesau sydd â gwerth ardrethol o £10,000 neu lai yn cael disgownt o 100 y cant. At hynny, bod unrhyw fusnesau bach sydd â gwerth ardrethol rhwng £10,000.01 a £20,000 yn cael disgownt/rhyddhad ar system raddedig rhwng 0 a 100 y cant.

### **Gwybodaeth ychwanegol**

Ar hyn o bryd nid yw'r system rhyddhad ardrethi busnesau bach ond yn cynnig disgownt o 100 y cant i fusnesau sydd â gwerth ardrethol o dan £6,000. Ond, yn Lloegr, mae busnesau bach sydd â gwerth ardrethol o dan £12,000 yn cael disgownt o 100 y cant.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Arfon
- Gogledd Cymru

## Deiseb: Adolygiad o ryddhad ardrethi busnesau bach:

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Ionawr 2019

Petitions Committee | 29 January 2019

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb:

Teitl y ddeiseb: Adolygiad o ryddhad ardrethi busnesau bach

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r system rhyddhad ardrethi busnesau bach fel bod busnesau sydd â gwerth ardrethol o £10,000 neu lai yn cael disgownt o 100 y cant. At hynny, bod unrhyw fusnesau bach sydd â gwerth ardrethol rhwng £10,000.01 a £20,000 yn cael disgownt/rhyddhad ar system raddedig rhwng 0 a 100 y cant.

Ar hyn o bryd nid yw'r system rhyddhad ardrethi busnesau bach ond yn cynnig disgownt o 100 y cant i fusnesau sydd â gwerth ardrethol o dan £6,000. Ond, yn Lloegr, mae busnesau bach sydd â gwerth ardrethol o dan £12,000 yn cael disgownt o 100 y cant.

### Y cefndir

Mae [ardrethi busnes](#) (a elwir hefyd yn ardrethi annomestig) wedi'u datganoli'n llwyr i Gymru ers mis Ebrill 2015. Mae ardrethi busnes yn dreth eiddo a delir ar eiddo annomestig a dyma'r modd y mae busnesau a defnyddwyr eraill eiddo annomestig yn cyfrannu tuag at gost gwasanaethau awdurdod lleol.



113,100

Mae 113,100 o eiddo annomestig yng Nghymru yn gymwys i dalu ardrethi busnes



£1.05bn

Bydd £1.05 biliwn o wariant Llywodraeth Cymru yn cael ei ariannu gan ardrethi busnes yn 2018-19, 6% o gyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru

Caiff ardrethi busnes eu cyfrifo drwy luosi gwerth ardrethol eiddo â'r lluosydd ardrethi busnes ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, yn prasio eiddo ar gyfer ardrethi busnes ac mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r lluosydd (sy'n gysylltiedig â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr).



Mae Llywodraeth Cymru yn gallu cynnig rhyddhad a all ostwng bil ardrethi busnes. Caiff unrhyw ryddhad y mae'r eiddo yn gymwys iddo ei dynnu oddi ar y rhwymedigaeth yn y bil ardrethi busnes terfynol.

## Camau Llywodraeth Cymru

### Rhyddhad ardrethi i fusnesau bach

Ers mis Ebrill 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno [cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach parhaol](#). Mae hyn yn eithrio safleoedd busnes cymwys sydd â gwerth ardrethol hyd at £6,000 rhag talu ardrethi busnes. Mae safleoedd busnes sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn cael rhyddhad sy'n cael ei leihau'n raddol; gyda chanran y rhyddhad ardrethi a ddyfarnwyd yn gostwng 1 y cant am bob £60 o werth ardrethol dros £6,000. Bydd modd i fusnesau sydd â sawl safle gael rhyddhad ar ddau eiddo fesul awdurdod lleol.

Mae ystod o fentrau eraill gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a all roi [rhyddhad i fusnesau](#):

- Bydd busnesau bach a oedd yn cael [rhyddhad trosiannol](#) ar ôl ailbrasio ardrethi busnes 2017 yn parhau i gael rhyddhad yn 2018-19 a 2019-20.

- Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig [cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr](#), sy'n rhoi rhyddhad i safleoedd cymwys ar y stryd fawr, megis siopau, tafarnau a chaffis sydd â gwerth ardrethol hyd at £50,000.
- Yn 2018–19, darparodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid swm o £1.3 miliwn i [awdurdodau lleol ddatblygu eu cynlluniau rhyddhad ardrethi dewisol](#) eu hunain i gynorthwyo busnesau yn eu hardal leol a fyddai'n elwa fwyaf ar gymorth ychwanegol.
- Mae gan awdurdodau lleol [hefyd bwerau](#) i ddyfarnu rhyddhad ardrethi dewisol ychwanegol o hyd at 100 y cant i fusnesau yn eu hardal, er ei bod yn ofynnol iddynt ariannu costau hyn yn llawn.
- Caiff awdurdodau lleol ddefnyddio eu disgrisiwn i ddyfarnu rhyddhad caledi o hyd at 100 y cant i fusnesau yn eu hardal.
- Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnal cyfres o gynlluniau i roi rhyddhad i fusnesau bach newydd neu sy'n ehangu mewn [Ardaloedd Menter](#). Daeth y cynllun diweddaraf i ben ar 30 Mawrth 2018.

### Rhyddhad Llywodraeth y DU

Mae [Llywodraeth y DU yn cynnig rhyddhad i dalwyr ardrethi yn Lloegr](#) ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf penodol. Mae rhyddhad ar gael i fusnesau bach, ardaloedd gwledig, elusennau ac ardaloedd menter. Hefyd, mae cynghorau Lloegr yn cynnig rhyddhad dewisol a rhyddhad caledi penodol.

Mae'r meini prawf ar gyfer [rhyddhad ardrethi busnesau bach](#) yn Lloegr yn wahanol i Gymru. Mae'r rhyddhad ar gael i eiddo a brisiwyd yn llai na £15,000. Mae eiddo sydd â gwerth ardrethol dan £12,000 yn cael rhyddhad 100 y cant ac mae'r rhai sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £15,000 yn cael rhyddhad graddedig o 100 y cant i 0 y cant.

Mae rhyddhad yn gyfyngedig i un eiddo. Os caiff ail eiddo ei gaffael, bydd y rhyddhad presennol ar y prif eiddo yn parhau i fod ar gael am 12 mis. Yna, mae'r rhyddhad ar gyfer y prif eiddo ar gael, ar yr amod nad oes gwerth ardrethol uwchlaw £2,899 i'r un eiddo arall, a bod cyfanswm gwerth ardrethol yr holl eiddo'n llai nag £20,000 (neu £28,000 yn Llundain).

Mae Lloegr hefyd yn gweithredu lluosydd busnesau bach ar gyfer eiddo sydd â gwerth ardrethol islaw £51,000. Mae hyn yn is na'r lluosydd safonol. Y lluosydd busnesau bach yw 48c a'r lluosydd safonol yw 49.3c o 1 Ebrill 2018 tan 31 Mawrth 2019 (mae'r lluosydd yn uwch yn Ninas Llundain).

Mae gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi'r gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr:

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi busnesau. Caiff y cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach (SBRR) yng Nghymru ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae'r trothwyon ar gyfer rhoi rhyddhad wedi'u seilio ar sylfaen drethi Cymru a chyfran y busnesau bach yng Nghymru – y ddau gryn dipyn yn wahanol i'r hyn ydynt yn Lloegr. Oddeutu £22,000 yw'r gwerth ardrethol cyfartalog yng Nghymru; yn Lloegr mae oddeutu £33,000. Hefyd, caiff y system yn Lloegr ei hariannu'n rhannol drwy luosydd uwch ar gyfer busnesau mwy. Mae'n iawn fod ein system ardrethi a rhyddhad ni yn adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn.

### Datblygiadau diweddar

Cyhoeddodd [cyllideb Hydref Llywodraeth y DU](#) ym mis Hydref 2018 [ddisgownt manwerthu ardrethi busnes](#) i gefnogi rhyddhad ar gyfer safleoedd y stryd fawr. Cynigiwyd y rhyddhad am ddwy flynedd o fis Ebrill 2019. Cyhoeddwyd rhyddhad ardrethi busnes 100 y cant ar wahân ar gyfer tai bach cyhoeddus. Mae hyn yn ychwanegol at gynlluniau eraill yn Lloegr. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyllid canlyniadol yn 2019–20 oherwydd cyhoeddiad Llywodraeth y DU, ond nid yw cyllid canlyniadol 2020–21 wedi'i feintoli eto. Mewn ymateb i [gwestiynau yn y Cyfarfod Llawn ym mis Tachwedd 2018](#), dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (Mark Drakeford):

Nid oes angen inni efelychu'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, gan fod gennym gynllun rhyddhad ardrethi'r stryd fawr yma yng Nghymru eisoes, yn wahanol i Loegr. Fe'i cyflwynasom y flwyddyn cyn y ddiwethaf mewn trafodaeth gydag arweinydd Plaid Cymru, Adam Price, lle cytunasom ar baramedrau ar y cyd ar gyfer cynllun rhyddhad ardrethi'r stryd fawr yng Nghymru. Rydym wedi ei barhau eleni. Gan ddefnyddio'r swm canlyniadol ar gyfer y flwyddyn nesaf, rwy'n gobeithio y gallwn sicrhau ei fod yn fwy hael ar gyfer busnesau yng Nghymru na'r hyn y gallasom ei wneud hyd yn hyn. Byddwn yn llunio cynllun sy'n addas ar gyfer maint, dosbarthiad a gwerth y sylfaen ardrethi annomestig yng Nghymru, sy'n wahanol i'r un yn Lloegr, er mwyn sicrhau bod yr arian yn mynd i'r manau lle mae ei angen fwyaf.

Yn dilyn hyn, ar 10 Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid estyniad i [gynllun rhyddhad ardrethi'r stryd fawr](#). Mae hyn yn gymwys i 2019–20 a byddai'n darparu rhyddhad llawn ar gyfer eiddo cymwys hyd at £9,100 a chymorth hyd at £2,500 ar gyfer eiddo a brisir hyd at £50,000. Mae cyllideb derfynol 2019–20 yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu dyrannu cyllid canlyniadol llawn y DU o ganlyniad i wariant ychwanegol yn Lloegr ar gyfer rhyddhad ardrethi: rhyddhad ardrethi annomestig £23.6 miliwn i gynyddu cynllun rhyddhad ardrethi'r stryd fawr a £2.4 miliwn yn fwy ar gyfer rhyddhad ardrethi dewisol.

### Datblygiadau eraill Llywodraeth Cymru

Datblygiadau diweddar o ran ardrethi busnes yng Nghymru:

- Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (Mark Drakeford) [ddatganiad ysgrifenedig](#) ym mis Gorffennaf 2018 ynghylch dyddiad yr ailbrisiad nesaf (2021). Roedd hyn hefyd yn cynnwys manylion ar ddiwygio trethi lleol gan Lywodraeth Cymru.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [ddiweddariad ar ddiwygio cyllid Llywodraeth Leol](#) ym mis Hydref 2018, sy'n cynnwys gwybodaeth am ardrethi busnes.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [ddatganiad ysgrifenedig](#) ym mis Hydref 2018 ynghylch twyll ac osgoi talu ardrethi annomestig, a ddilynodd [ymgyngoriad](#) ar y mater hwnnw.
- Fel rhan o [gyllideb ddrafft 2019-20](#) Llywodraeth Cymru, cyhoeddwyd y byddai safleoedd gofal plant cofrestredig yn cael rhyddhad 100 y cant o 1 Ebrill 2019 (rhyddhad ar waith am 3 blynedd hyd at 31 Mawrth 2022).

Trafododd Pwyllgor Deisebau'r Pedwerydd Cynulliad ddeisebau sy'n ymwneud ag ardrethi busnes, gan gynnwys y canlynol:

- P-04-609 Cefnogwch Fusnesau Bach – Cefnogwch ein Strydoedd Mawr ([Ionawr 2015](#))
- P-04-446 Rhyddhad Ardrethi Busnes i siopau elusen yng Nghymru ([Mis Ionawr 2013 tan fis Gorffennaf 2016](#))

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Mark Drakeford AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid  
Cabinet Secretary for Finance



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref MD/00659/18

David John Rowlands AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA  
Government.Committee.Business@llyw.cymru

|| Rhagfyr 2018

*Amwyg David,*

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 26 Tachwedd, yn rhoi gwybod imi am y ddeiseb gan Endaf Cooke a Gavin Owen ynglŷn ag adolygiad o Ryddhad Ardrethi i Fusnesau Bach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi busnesau. Caiff y cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach (SBRR) yng Nghymru ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae'r trothwyon ar gyfer rhoi rhyddhad wedi'u seilio ar sylfaen drethi Cymru a chyfran y busnesau bach yng Nghymru - y ddau gryn dipyn yn wahanol i'r hyn ydynt yn Lloegr. Oddeutu £22,000 yw'r gwerth ardrethol cyfartalog yng Nghymru; yn Lloegr mae oddeutu £33,000. Hefyd, caiff y system yn Lloegr ei hariannu'n rhannol drwy luosydd uwch ar gyfer busnesau mwy. Mae'n iawn fod ein system ardrethi a rhyddhad ni yn adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn.

Mae cynllun SBRR gwerth £100 miliwn Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i oddeutu 70,000 o dalwyr ardrethi, a mwy na'u hanner yn talu dim ardrethi o gwbl. Mae hyn yn hollol wahanol i Loegr. Hyd yn oed o dan y cynllun wedi'i ehangu yn Lloegr, dim ond tua thraean o'r rhai sy'n talu ardrethi sy'n talu dim ardrethi annomestig o gwbl.

Yn ddiweddar, cyhoeddais £23.6 miliwn yn ychwanegol i ehangu a gwella cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr am flwyddyn arall yn 2019-20, gan helpu siopau, bwytai, caffis a thafarnau.

Bydd y cynllun wedi'i ehangu yn mynd gryn dipyn yn bellach nag yn y blynyddoedd blaenorol, gan ddarparu cymorth i tua 15,000 o fanwerthwyr yng Nghymru sydd â gwerth ardrethol o hyd at £50,000 a lleihau'r biliau ardrethi i sero ar gyfer eiddo manwerthu â gwerth ardrethol o hyd at £9,100.

Bydd awdurdodau lleol hefyd yn cael £2.4 miliwn yn ychwanegol i ddarparu rhyddhad ardrethi disgresiynol i fusnesau lleol a thalwyr ardrethi eraill a fyddai'n gweld yr effaith fwyaf. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddarparu i'r awdurdodau drwy setliad llywodraeth leol 2019-20.

Gyda'i gilydd, bydd yr estyniad hwn i gynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a'r cyllid ychwanegol ar gyfer rhyddhad ardrethi disgresiynol, ynghyd â'n cynllun parhaol ar gyfer Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach a chynlluniau rhyddhad eraill, yn cynnig cymorth amserol wedi'i dargedu i'r rhai sy'n talu ardrethi ym mhob cwr o Gymru.

Rwy'n parhau i edrych ar opsiynau ar gyfer diwygio trethi lleol yn y tymor hir a datblygu ein cynllun SBRR er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei dargedu i ddiwallu anghenion Cymru yn y ffordd orau. Ein bwriad yw mabwysiadu dull blaengar, teg a thryloyw o ymdrin â threthi lleol yng Nghymru, sy'n parhau i ddarparu cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol.

In gywir,  
Mark.

**Mark Drakeford AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid  
Cabinet Secretary for Finance



**P-05-856 Rhaid gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol yng Nghymru (Cyfraith Lucy)**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan C.A.R.I.A.D., ar ôl casglu 11,195 o lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i weithredu gwaharddiad ar werthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol.

Mae gwaharddiad ar werthu cŵn bach gan drydydd partion am elw wedi'i enwi'n 'Cyfraith Lucy' ac fe'i cyhoeddwyd yn ddiweddar yn Lloegr. Mae cefnogaeth enfawr gan y cyhoedd, y cyfryngau ac ar draws y pleidiau i Gyfraith Lucy, ac rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno Cyfraith Lucy yng Nghymru fel mater o frys.

Mae tynnu cŵn bach oddi ar eu mamau i'w gwerthu yn aml yn creu cŵn sâl, trist, wedi'u trawmateiddio, sy'n camweithredu. Dylid gallu gweld cŵn bach gyda'u mam yn y lle y cawsant eu geni. Mae eu cludo i le gwahanol ar gyfer eu gwerthu yn niweidiol o ran eu lles. Nid yw rheoleiddio gwerthu cŵn bach yn fasnachol gan drydydd partion yn effeithiol i atal niwed iddynt, ac felly mae gwaharddiad yn angenrheidiol er lles cŵn bach.

Caiff cŵn bridio a gedwir mewn ffermydd cŵn bach eu cuddio o olwg y cyhoedd ac yn aml maent yn dioddef trawma corfforol a seicolegol am flynyddoedd. Mae rheoleiddio gwerthu cŵn bach yn fasnachol gan drydydd partion yn aneffeithiol o ran atal niwed i gŵn bridio ac mae gwaharddiad ar drydydd partion ar werthu cŵn felly yn angenrheidiol er eu lles.

Byddai gwaharddiad ar werthu cŵn bach gan drydydd partion yn cael effaith gadarnhaol ar gŵn bridio, ac yn sicrhau eu bod yn weladwy, a byddai'n galluogi'r cyhoedd i weithredu ar gyngor arfer gorau i weld ci bach gyda'r fam ble y'i ganwyd.

Hefyd, ar hyn o bryd mae rhai pobl sy'n ffermio cŵn bach heb drwydded, a smyglwyr cŵn bach, yn defnyddio trydydd partion trwyddedig i werthu eu cŵn bach, ac mae hyn yn ei gwneud yn bosibl iddynt weithredu heb gael eu dal, a heb i awdurdodau lleol fonitro iechyd a lles cŵn bridio a chŵn bach. Mae rheoleiddio gwerthu cŵn bach yn fasnachol gan drydydd parti yn

anefeithiol wrth atal ffermio cŵn bach yn anghyfreithlon a smyglwyr cŵn bach, ac felly mae angen gwaharddiad ar drydydd partion o ran gwerthu cŵn, i ddiogelu cŵn, cŵn bach a'r cyhoedd, yn ogystal ag i atal gweithgarwch troseddol.

Nid oes dim manteision lles o werthu cŵn bach drwy werthwyr masnachol. Mae'r arfer hwn dim ond yn golygu bod cŵn bridio yn cael eu cadw o lygad y cyhoedd. Yn ogystal â phryderon am les anifeiliaid, mae gwerthiant gan drydydd partion yn creu risgiau ychwanegol i iechyd a diogelwch y cyhoedd.

Mae gwerthiant cŵn bach yn uniongyrchol gan fridwyr neu ganolfannau achub cŵn adnabyddus yn amddiffyn pob parti, yn sgîl rhagor o dryloywder ac atebolrwydd. Gallai gwaharddiad ar fargeinio am gŵn bach er elw godi safonau iechyd a lles ar gyfer cŵn bridio a chŵn bach, yn ogystal â darparu diogelwch y mae mawr ei angen ar gyfer y cyhoedd.

Mae gweithredu Cyfraith Lucy yng Nghymru hefyd yn hanfodol i fynd i'r afael â'r difrod a wnaed i enw da Cymru, sy'n parhau i gael ei gydnabod fel canolbwynt o ran ffermio cŵn bach yn y Deyrnas Unedig.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin De Cymru

## P-05-856: Gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Ionawr 2019  
Petitions Committee | 15 January 2019

### Briff Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-856

Teitl y ddeiseb: Gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol yng Nghymru (Cyfraith Lucy)

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i bwysu ar Lywodraeth Cymru i weithredu gwaharddiad ar werthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol.

Mae gwaharddiad ar werthu cŵn bach am elw gan drydydd partïon cael yr enw 'Cyfraith Lucy', ac yn ddiweddar cyhoeddwyd y ffaith iddi gael ei gweithredu yn Lloegr. Mae gan Cyfraith Lucy gefnogaeth y cyhoedd, y cyfryngau a'r pleidiau i gyd, ac rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i bwysu ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Cyfraith Lucy yng Nghymru fel mater o frys.

Mae tynnu cŵn bach oddi wrth eu mam i'w gwerthu yn creu cŵn sâl, ofnus ag ymddygiad camweithredol yn aml. Dylai cŵn bach gael eu gweld gyda'u mam yn y man lle cawsant eu geni. Mae eu cludo i le gwahanol i'w gwerthu yn niweidio eu lles. Mae rheoleiddio gwerthu cŵn bach gan drydydd partïon masnachol yn aneffeithiol o ran atal niwed, felly mae gwaharddiad yn angenrheidiol er lles cŵn bach.

Mae cŵn bridio a gedwir mewn ffermydd cŵn bach yn cael eu cuddio o olwg y cyhoedd ac yn dioddef o flynyddoedd o drawma corfforol a seicolegol yn aml. Mae rheoleiddio gwerthu cŵn bach gan drydydd partïon masnachol yn aneffeithiol o ran atal niwed i gŵn bridio, felly mae gwaharddiad ar werthu cŵn gan drydydd partïon yn angenrheidiol er lles cŵn bridio.

Bydd gwaharddiad ar werthu cŵn bach gan drydydd partïon yn cael effaith gadarnhaol ar gŵn bridio, gan sicrhau eu bod yn weladwy ac yn galluogi'r cyhoedd i weithredu ar gyngor arfer gorau i weld y ci bach gyda'r fam yn y man lle cafodd ei eni.

Yn ogystal, mae ffermwyr cŵn bach heb drwydded a smyglwyr cŵn bach anghyfreithlon, yn defnyddio trydydd partïon trwyddedig i werthu eu cŵn bach, gan ei gwneud hi'n bosibl iddynt weithredu o dan y radar a heb i iechyd a lles cŵn bridio a chŵn bach allu cael eu monitro gan awdurdodau lleol. Mae rheoleiddio gwerthu cŵn bach gan drydydd partïon yn aneffeithiol o ran atal ffermio cŵn bach a smyglo cŵn bach, felly mae gwaharddiad ar werthu cŵn bach gan drydydd partïon yn angenrheidiol er mwyn diogelu cŵn, cŵn bach a'r cyhoedd, yn ogystal ag atal gweithgarwch troseddol.

Nid oes unrhyw fanteision lles wrth werthu cŵn bach trwy werthwyr masnachol. Nid yw'r arfer hwn yn gwneud dim heblaw sicrhau bod cŵn bridio yn cael eu cadw rhag llygaid y cyhoedd. Yn ogystal â phryderon lles anifeiliaid, mae gwerthiannau trydydd parti yn creu risgiau ychwanegol ar gyfer iechyd a diogelwch y cyhoedd.

Mae gwerthiant cŵn bach yn uniongyrchol gan fridiwr neu ganolfan achub ag enw da'n diogelu pob parti trwy sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd. Bydd gwaharddiad ar brynu a gwerthu cŵn bach am elw yn codi safonau iechyd a lles ar gyfer cŵn bridio a chŵn bach, yn ogystal â darparu diogelwch mawr ei angen i'r cyhoedd.

Mae gweithredu Cyfraith Lucy yng Nghymru yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael â'r difrod sydd wedi'i wneud i enw da Cymru, sy'n parhau i gael ei chydabod fel canolfan ffermio cŵn bach yn y Deyrnas Unedig.

Prif Ddeisebydd: [C.A.R.I.A.D](#)

## Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru [wedi ymrwymo](#) i lansio ymgynghoriad 12 wythnos ar wahardd gwerthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd partïon ar 22 Chwefror 2019. Ym mis Awst 2018, [cyhoeddodd](#) yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Michael Gove, y bydd gwaharddiad ar werthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd partïon yn cael ei gyflwyno yn Lloegr. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn dadansoddi'r ymatebion i'w hymgynghoriad diweddar: [Banning commercial third-party sales of puppies and kittens in England](#). Mae'r briff hwn yn rhoi'r cefndir.

## Cyfraith Lucy

'[Cyfraith Lucy](#)' yw'r term a fabwysiadwyd ar gyfer gwaharddiad ar werthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a gwerthwyr masnachol trydydd parti eraill. Byddai'r gwaharddiad hwn yn golygu na fyddai siopau anifeiliaid anwes, gwerthwyr anifeiliaid anwes a gwerthwyr cŵn bach trwyddedig eraill yn gallu gwerthu'r anifeiliaid anwes hyn **oni bai mai nhw eu hunain sydd wedi**

**eu bridio.** Mae'r ymgyrch hon yn seiliedig ar les anifeiliaid; byddai gwaharddiad yn atal cŵn bach rhag cael eu tynnu oddi wrth eu mam a gweddill y dorllwyth yn ifanc i'w gwerthu. Mae'r ymgyrch yn dadlau hefyd fod gwerthu gan drydydd partïon yn creu risgiau ychwanegol i iechyd a diogelwch defnyddwyr a'r cyhoedd (gweler testun y ddeiseb uchod). Rhoddwyd yr enw cyfraith Lucy i'r ymgyrch ar ôl y Sbaengi Siarl Cafalîr o'r enw Lucy, a fridiwyd yn helaeth mewn fferm cŵn bach heb fawr ddim ystyriaeth i'w lles.

Mae gwaharddiad yn mynd y tu hwnt i reoliadau trwyddedu presennol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (a nodir isod).

Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (EFRA) Tŷ'r Cyffredin [adroddiad](#) ar les anifeiliaid anwes domestig, a oedd yn cynnwys argymhelliad i wahardd gwerthu cŵn bach gan drydydd partïon:

We recommend that the Government ban third party sales of dogs. Dogs should only be available from licensed, regulated breeders or approved rehoming organisations.

[Gwrthododd Llywodraeth y DU](#) yr argymhelliad ym mis Ionawr 2017, gan gyfeirio at y diffyg eglurder ynghylch gorfodi a datgan ei bod yn cefnogi "trwyddedu cadarn" fel ateb arall. Nododd:

Given the demand for dogs there is a risk that a ban on third party sales would drive some sales underground, and welfare charities are already concerned about the number of good breeders. We note that a number of established welfare charities with experience and knowledge of the sector have advised against a ban on third party sales. We consider that such a ban has the potential to increase unlicensed breeding in addition to a rise in the sale and irresponsible distribution of puppies, and may be detrimental to our welfare objectives.

Ar ôl hynny, cyflwynodd Llywodraeth y DU reoliadau, [The Animal Welfare \(Licensing of Activities Involving Animals\) \(England\) Regulations 2018](#), gan ddefnyddio pwerau o dan *Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006*. Daeth y rheoliadau i rym ym mis Hydref 2018. Maent yn cynnwys system drwyddedu ar gyfer gwerthu cŵn bach gan drydydd partïon, yn hytrach na gwaharddiad.

O ran gwaharddiad, ar 14 Rhagfyr 2017, cyflwynwyd [cynnig cynnar-yn-y-dydd](#) yn Nhŷ'r Cyffredin ar Gyfraith Lucy a gafodd 89 o lofnodion.

Ym mis Chwefror 2018, lansiodd Michael Gove [alwad am dystiolaeth](#) ar wahardd gwerthu cŵn bach gan drydydd partïon. Roedd yr ymgynghoriad yn Lloegr yn unig, a derbyniodd ychydig dros 300 o ymatebion. Darparodd tua 70% o'r ymatebion ddadleuon o blaid gwaharddiad, a darparodd llai na 10% ddadleuon yn erbyn hynny. Codwyd pryderon ynghylch gwerthu gan drydydd partïon megis diffyg cymdeithasoli, risg uwch o glefyd a mwy o broblemau ymddygiadol. Darparwyd tystiolaeth ar yr effaith y byddai gwaharddiad yn ei chael ar y diwydiant anifeiliaid anwes ac a fyddai gwaharddiad o'r fath yn gwella lles anifeiliaid. Teimlwyd hefyd y dylid caniatáu i'r rheoliadau trwyddedu newydd ennill eu plwyf cyn cymryd camau

ychwanegol. Awgrymodd amryw o sefydliadau y gallai gwerthwyr trydydd parti geisio cyflwyno eu hunain fel elusennau ailgartrefu er mwyn osgoi'r gwaharddiad.

Ym mis Mawrth 2018, [lansiwyd e-ddeiseb Cyfraith Lucy](#), sef 'Gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol'.

Ar 21 Awst, [cyhoeddodd](#) Michael Gove y bydd gwaharddiad ar werthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd partion yn Lloegr yn cael ei gyflwyno i helpu i wella safonau lles anifeiliaid. Meddai

A ban on third party sales will ensure the nation's much-loved pets get the right start in life. I pay tribute to the Lucy's Law campaign, spearheaded by Pup Aid, C.A.R.I.A.D., and Canine Action UK, who have fought tirelessly for this step. People who have a complete disregard for pet welfare will no longer be able to profit from this miserable trade.

Ar 22 Awst, cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) [ymgyngoriad](#) ar gynlluniau i gyflwyno gwaharddiad ar werthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd partion masnachol<sup>1</sup> yn Lloegr. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi.

## Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

### Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014

Mae lles anifeiliaid wedi'i ddatganoli i Gymru. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru [Reoliadau Lles Anifeiliaid \(Bridio Cŵn\) \(Cymru\) 2014](#) gyda'r nod o wella safonau bridio cŵn yng Nghymru. Daeth y Rheoliadau i rym ar 30 Ebrill 2015. Mae Rheoliadau 2014 yn disodli [Deddf Bridio Cŵn 1973](#) yng Nghymru ac yn cyflwyno meini prawf lles llymach ar gyfer bridio cŵn. Mae Rheoliadau 2014:

- Yn ei gwneud yn ofynnol i drwyddedu bridwyr sy'n cadw o leiaf dair gast fridio ac sydd naill ai'n bridio, yn gwerthu, yn cyflenwi neu'n hysbysebu bridio neu gŵn bach i'w gwerthu o'u heiddo;
- yn cyflwyno safonau lles llymach ar gyfer sefydliadau bridio;
- yn ei gwneud yn ofynnol i fridwyr fabwysiadu rhaglenni cymdeithasoli, gwella a chyfoethogi ar gyfer eu hanifeiliaid; ac
- yn creu cymhareb sy'n isafswm staff i gŵn llawndwf.

Mae yna Amodau Trwyddedu Enghreifftiol (MLCs) penodol a ddatblygwyd gan lywodraeth leol i'w defnyddio yng Nghymru. Mae'r Amodau'n diffinio'r gofal corfforol sydd ei angen ar eist bridio a chŵn bach ac yn cyflwyno gofynion newydd yn ymwneud â [chymdeithasoli](#) a [chyfoethogi'r amgylchedd](#) gyda'r nod o helpu i sicrhau bod cŵn bach yn cael eu paratoi'n well ar gyfer bywyd mewn lleoliad teuluol.

---

<sup>1</sup> Yn wahanol i fridio cŵn, nid yw bridio cathod yn cael ei reoleiddio ar hyn o bryd.

## Pryderon parhaus ynghylch bridio cŵn

Mae amryw o elusennau lles anifeiliaid yn poeni nad yw'r rheoliadau presennol yn mynd yn ddigon pell i amddiffyn iechyd a lles cŵn, felly maent yn cefnogi gwaharddiad. Mae enghreifftiau'n cynnwys [yr RSPCA](#), [y Kennel Club](#), [yr Ymddiriedolaeth Cŵn](#), [Cartref Cŵn a Chathod Battersea](#) a [chanolfan ailgartrefu Mayhew](#).

## Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar waharddiad

Yng Nghinio Gala'r RSPCA ar 5 Tachwedd 2018, [cyhoeddodd](#) Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig bellach), Lesley Griffiths, y bydd ymgynghoriad yn cael ei lansio yn y Flwyddyn Newydd (2019) ar effaith gwahardd gwerthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd partion.

Yr wythnos ganlynol, ar 13 Tachwedd 2018, gwnaeth Lesley Griffiths [ddatganiad ar les anifeiliaid](#) yn y Cyfarfod Llawn, gan ailddatgan yr ymrwymiad hwn:

mae nifer o gydweithwyr wedi codi'r mater o gyfraith Lucy gyda mi dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae'n hanfodol inni fynd i'r afael â gwraidd unrhyw bryderon lles mewn newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais ein bod yn cynnal ymgynghoriad cynnar yn y flwyddyn newydd ar y broblem bwysig hon.

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Gofynnwyd i Lesley Griffiths am gyfraith Lucy [yng nghyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig \(CCERA\) ar 4 Hydref 2018](#). Meddai:

In relation to Lucy's law...I think we've seen far too much of that horrific practice. So, we've already introduced a number of animal welfare measures, and you referred to—. We've done it before England. I think they've caught us up in lots of respects. So, what I've asked officials to do is to look at this. I think there's a really robust campaign around Lucy's law, and I think it's something that I would want to do.

Aeth Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Llywodraeth Cymru, ymlaen i ddweud:

...it's about making sure we have our own rules that dovetail in with England so that we don't create this kind of perverse imbalance, and I think that's about working together. So, we're working very closely with our colleagues, in fact across the whole of the UK, because we know that puppies don't just come across the England-Wales border; we get puppies from Ireland and puppies from Scotland as well.

Ar 12 Rhagfyr 2018, cafwyd [dadl fer yn y Cyfarfod Llawn](#) ar gyfraith Lucy. Amlygodd Andrew RT Davies AC faint y broblem o ran lles anifeiliaid yn y diwydiant bridio cŵn yng Nghymru:

Yn anffodus, mae Cymru bellach wedi cael enw fel man lle ceir llawer o'r arferion ffaidd hyn, gyda nifer sylweddol o ffermydd cŵn bach wedi'u lleoli yn siroedd Caerfyrddin a Cheredigion. Mewn gwirionedd, yn ardal wledig de-orllewin Cymru y ceir y crynodiad mwyaf yn y Deyrnas Unedig o fridwyr cŵn masnachol, ac mae'n ffaith adnabyddus anffodus fod yr ardal honno wedi bod yn cynhyrchu llif o gŵn bach mewn amodau ofnadwy.

## Aeth ymlaen i ddweud:

Mae nifer o grwpiau anifeiliaid, megis yr Ymddiriedolaeth Cŵn a Diogelu Cathod yn cefnogi gwaharddiad, a dylai fod yn llawer haws ac yn llawer rhatach na system drwyddedu wedi'i thagu gan fiwrocratiaeth a diffyg adnoddau.

## Ymatebodd Lesley Griffiths i'r ddadl:

Nid oes dim yn atal symud anifeiliaid anwes a fagwyd yng Nghymru i rannau eraill o'r DU ac i'r gwrthwyneb. Felly, pe baem yn edrych ar un cam yn y gadwyn yn unig, rwy'n credu y byddem yn colli cyfle mewn gwirionedd i sicrhau newid parhaol ac effeithiol iawn. Rhaid inni hefyd sicrhau na pheryglir lles anifeiliaid mewn sefydliadau bridio o ganlyniad i unrhyw newidiadau da eu bwriad. Mae'r broses ymgynghori yn gwbl allweddol i hyn, ac nid wyf am achub y blaen ar ei chanlyniadau drwy drafod manylion hynny heddiw. Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ac yn gofyn am dystiolaeth i'n helpu i greu darlun llawn o gadwyn gyflenwi cŵn a chathod bach, lle ceir pryderon o ran lles yn y gadwyn, a hefyd sut y gallai newid polisi neu ddeddfwriaeth ddatrys y pryderon hynny.

... Nid wyf am ddiystyru unrhyw opsiynau sydd ar gael i ni, ac rwyf wedi dweud yn glir iawn fy mod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r pryderon sy'n gysylltiedig â gwerthiannau trydydd parti. Rwy'n ymrwymedig i hyn a gallaf ddweud heddiw y caiff yr ymgynghoriad 12 wythnos ei lansio ar 22 Chwefror...

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y briff hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Lesley Griffiths AC/AM  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-856  
Ein cyf/Our ref LG/02363/18

David John Rowlands AM  
Chair - Petitions committee.  
National Assembly for Wales

SeneddPetitions@assembly.wales

15 January 2019

Dear Dawid

Thank you for your letter of 26 November regarding Petition P-05-856 to Ban the sale of puppies by pet shops and all commercial third party dealers in Wales (Lucy's Law).

I note this petition was started by C.A.R.I.A.D in September 2018 and submitted in December. During my Oral Statement on 19 June, I announced how we intended to build upon the significant animal welfare improvements since the introduction of the Dog Breeding Regulations by investigating the potential banning of third party sales. I attended a C.A.R.I.A.D event held in the Senedd on 11 July, where I confirmed this work was ongoing and we are exploring how a ban could be implemented in Wales.

Welsh Government officials met with Linda Goodman, the founder of C.A.R.I.A.D on 8 November and she is fully aware of the forthcoming consultation.

It is absolutely essential we address the root cause of any welfare concerns in changes to legislation and I will launch a consultation on 22 February 2019.

Regards  
Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 55



Kayleigh Imperato  
Deputy Clerk  
Petitions Committee  
National Assembly for Wales  
2019

23<sup>rd</sup> January

Dear Ms Imperato,

C.A.R.I.A.D. welcomes the Committee's consideration of our e-Petition: Ban the sale of puppies by pet shops and all commercial 3<sup>rd</sup> party dealers in Wales (Lucy's Law), which was successful in collecting well over 11,000 signatures, and wish to bring to the attention of the Committee our concerns that, regardless of the response from the Cabinet Secretary to David John Rowland AM, it is imperative that this important petition be given time for debate.

This petition has received many thousands of signatures from the people of Wales, as well as considerable attention across both social and printed media. This is because the people of Wales are deeply concerned about puppy farming and puppy dealing in our country. We believe that the Welsh citizens who have taken the time to sign the petition deserve to see their concerns discussed in a public forum by Assembly Members democratically elected to represent them. Furthermore, how Wales now addresses this critical issue is also being closely observed by other parts of the United Kingdom as well as from overseas. It's fair to say that in terms of animal welfare, all eyes are on Wales at the moment.

Whilst the Cabinet Secretary has stated in her letter to David John Rowland AM that there have been significant animal welfare improvements since the introduction on 30<sup>th</sup> April 2015 of the Animal Welfare (Breeding of Dogs) (Wales) Regulations, C.A.R.I.A.D. must highlight that regrettably this has not materialised into significant improvements to the physical and psychological health or welfare of the vast majority of breeding dogs in commercial Welsh breeding establishments. Our field and first-hand evidence of rescues that take in these dogs once they are retired, provides a shocking and depressing visual

### **Care And Respect Includes All Dogs**

PO Box 386, Bridgend CF31 9QD • Email: [cariadcampaign@live.co.uk](mailto:cariadcampaign@live.co.uk) • [www.cariadcampaign.co.uk](http://www.cariadcampaign.co.uk)

Not for Profit CIC Registered No: 11402691

Tudalen y pecyn 56



**C.A.R.I.A.D.**

representation, through photos and videos, of the true state of affairs on the ground. This desperate situation is compounded by the considerable costs of veterinary treatment paid for by these rescues, in order to redress years of neglect and abuse suffered by these dogs, and in many cases their poor puppies as well.

C.A.R.I.A.D. recognises that there are, in addition to a ban, a number of areas where improvements to regulations, licensing, and enforcement are still required. A review of the Regulations is long overdue having initially been promised after 12 months of implementation, which became two years, then 3 years and will be 4 years by April 2019; during which time dogs and puppies have continued to suffer at the hands of both licensed and unlicensed puppy farmers and of course, their dealers. We would add that we have met with Welsh Government officials on several occasions and raised our concerns regarding this over the years, and the Cabinet Secretary has appeared to consistently dismiss them.

Just as the UK Government has already confirmed with the imminent implementation of Lucy's Law in England, whatever additional regulations are applied, there will not be any significant, tangible improvements to the lives of the breeding dogs in these establishments without the inclusion of a ban on the third party commercial selling of puppies (Lucy's Law) in Wales too. Without complete transparency in the breeding and selling process there can be no accountability, and these dogs will continue to be hidden away from public scrutiny and cruelly exploited, as long as puppy farmers are allowed to continue selling puppies away from their mothers, remotely through third party dealers.

C.A.R.I.A.D. very much welcomed the Cabinet Secretary's attendance at our popular and well-attended Lucy's Law Senedd event on 11<sup>th</sup> July 2018. Whilst we were encouraged to hear her speak of future improvements and how a ban might be introduced in Wales, we are also minded of the number of consultations drawn out over many years before the current breeding Regulations were finally introduced. We are concerned that issues surrounding Brexit, for example, could provide ample opportunity for the issue of puppy farming and puppy dealing to become relegated, and therefore suffer similar delays,

## **Care And Respect Includes All Dogs**

PO Box 386, Bridgend CF31 9QD • Email: [cariadcampaign@live.co.uk](mailto:cariadcampaign@live.co.uk) • [www.cariadcampaign.co.uk](http://www.cariadcampaign.co.uk)

Not for Profit CIC Registered No: 11402691

Tudalen y pecyn 57



which is another reason why we are pressing for this essential debate to happen at its earliest possible opportunity.

C.A.R.I.A.D. naturally welcomes the Government Consultation which is to be launched on 22<sup>nd</sup> February 2019 and is scheduled to run for a period of 12 weeks. We will be responding fully and comprehensively to it. However, such a Consultation by necessity will cover broader areas than those addressed specifically within the petition itself and as such we believe that despite the Consultation being announced just prior to the closing date for the petition, this does not negate the requirement for a debate in the Chamber on Lucy's Law.

Finally, C.A.R.I.A.D. would like to bring to the attention of the Committee the significance of local government support for this specific issue and that the majority of councils in Wales have already voted through their own motions of support for Lucy's Law including Carmarthenshire, Ceredigion, Pembrokeshire, Cardiff, Caerphilly, RCT, Torfaen, Vale of Glamorgan, Neath Port Talbot, Blaenau Gwent, Merthyr Tydfil, Conwy and Denbighshire, with Swansea and Powys voting on 24<sup>th</sup> January and Newport voting on 29<sup>th</sup> January 2019.

We think you'll agree with us that this is hugely significant, given that it is these same councils that are on the front line of legislative enforcement, and understand only too well why the introduction of Lucy's Law in particular will assist the work of their licensing officials and animal health officers. For the Councillors across Wales who have taken the time and effort to put forward motions of support at their meetings of full council, in our opinion it would be doing a great disservice to these Councillors and to all those who have voted, if this petition isn't debated ASAP.

C.A.R.I.A.D. once again thanks the Committee for their consideration of the concerns we've raised and look forward to hearing news of a positive decision regarding a debate on this important animal welfare issue for Wales.

Kind regards,

**Care And Respect Includes All Dogs**

PO Box 386, Bridgend CF31 9QD • Email: [cariadcampaign@live.co.uk](mailto:cariadcampaign@live.co.uk) • [www.cariadcampaign.co.uk](http://www.cariadcampaign.co.uk)

Not for Profit CIC Registered No: 11402691

Tudalen y pecyn 58



**C.A.R.I.A.D.**

Linda Goodman  
Founder/Director  
**C.A.R.I.A.D.**



**Care And Respect Includes All Dogs**

PO Box 386, Bridgend CF31 9QD • Email: [cariadcampaign@live.co.uk](mailto:cariadcampaign@live.co.uk) • [www.cariadcampaign.co.uk](http://www.cariadcampaign.co.uk)

Not for Profit CIC Registered No: 11402691

Tudalen y pecyn 59

## Eitem 2.3

### P-05-857 Dylid creu Tasglu Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Plant

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan The National Organisation for Children's Mental Health, ar ôl casglu 91 o lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i greu Tasglu Cenedlaethol i ymchwilio i ba ffactorau diwylliannol, ffactorau cymdeithasol a ffactorau gwleidyddol a allai fod yn cyfrannu at nifer y plant yng Nghymru sy'n dioddef iechyd meddwl gwael; a bod y Tasglu Cenedlaethol hwn:

1) Yn cynnwys yn ei aelodaeth: plant; cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant; cynrychiolwyr o bob plaid wleidyddol a gynrychiolir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru; academyddion sy'n ymwneud ag ymchwilio i bolisi cymdeithasol, gwyddoniaeth wleidyddol, diwylliant, cymdeithas ac economeg;

2) Yn cael ei gadeirio gan Gomisiynydd Plant Cymru sydd yn y swydd pan grëir y Tasglu hwn, ac y dylai aros yn Gadeirydd y Tasglu am ei hyd, pe bai'n cytuno i wneud hynny (waeth a yw'n parhau'n Gomisiynydd Plant Cymru am oes y Tasglu ai peidio – ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol);

3)

Â chyfrifoldeb am lunio adroddiad yn seiliedig ar ei ymchwiliadau sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ei ganfyddiadau; ac y

4) Dylai Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â'r Tasglu Cenedlaethol hwn, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a phreswylwyr Cymru (gan gynnwys plant), edrych yn fanwl ar argymhellion yr adroddiad.

#### **Gwybodaeth ychwanegol**

Menter gymdeithasol sydd newydd ei sefydlu yw'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Plant Cyf. Ein hamcan yw cefnogi datblygiad diwylliant cenedlaethol sy'n galluogi plant i gynnal iechyd meddwl ardderchog, drwy helpu sefydliadau sy'n gweithio gyda a / neu ar gyfer plant, i greu'r amgylchedd gorau lle gall iechyd meddwl pob plentyn ffynnu.

## **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

## P-05-857 Dylid creu Tasglu Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Plant

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Ionawr 2019  
Petitions Committee | 29 January 2019

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

#### P-05-857 Dylid creu Tasglu Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Plant

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i greu Tasglu Cenedlaethol i ymchwilio i ba ffactorau diwylliannol, ffactorau cymdeithasol a ffactorau gwleidyddol a allai fod yn cyfrannu at nifer y plant yng Nghymru sy'n dioddef iechyd meddwl gwael; a bod y Tasglu Cenedlaethol hwn:

- 1) Yn cynnwys yn ei aelodaeth: plant; cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant; cynrychiolwyr o bob plaid wleidyddol a gynrychiolir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru; academyddion sy'n ymwneud ag ymchwilio i bolisi cymdeithasol, gwyddoniaeth wleidyddol, diwylliant, cymdeithas ac economeg;
- 2) Yn cael ei gadeirio gan Gomisiynydd Plant Cymru sydd yn y swydd pan grëir y Tasglu hwn, ac y dylai aros yn Gadeirydd y Tasglu am ei hyd, pe bai'n cytuno i wneud hynny (waeth a yw'n parhau'n Gomisiynydd Plant Cymru am oes y Tasglu ai peidio - ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol);
- 3) Â chyfrifoldeb am lunio adroddiad yn seiliedig ar ei ymchwiliadau sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ei ganfyddiadau; ac y
- 4) Dylai Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â'r Tasglu Cenedlaethol hwn, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a phreswylwyr Cymru (gan gynnwys plant), edrych yn fanwl ar argymhellion yr adroddiad.

#### Gwybodaeth ychwanegol:

Menter gymdeithasol sydd newydd ei sefydlu yw'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Plant Cyf. Ein hamcan yw cefnogi datblygiad diwylliant cenedlaethol sy'n galluogi plant i gynnal iechyd meddwl ardderchog, drwy helpu sefydliadau sy'n gweithio gyda a / neu ar gyfer plant, i greu'r amgylchedd gorau lle gall iechyd meddwl pob plentyn ffynnu.



## Cefndir

Ar 14 Ionawr 2019, [cyhoeddodd](#) y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai £7.1 miliwn ychwanegol yn cael ei wario ar amddiffyn, gwella a chefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd y buddsoddiad newydd hwn yn cefnogi'r gwaith o weithredu ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol yn ei adroddiad, 'Cadernid Meddwl'.

Cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol ei adroddiad, '[Cadernid Meddwl: Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru](#)' ym mis Ebrill 2018. Mewn ymateb i'r adroddiad hwnnw, a oedd yn galw am ddynodi llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc fel blaenoriaeth genedlaethol benodol, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Medi 2018 y byddai [Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol](#) yn cael ei sefydlu i gynghori Llywodraeth Cymru ynghylch beth yn ychwanegol y gallai ei wneud i gyflymu'r gwaith o wella gwasanaethau ac i sicrhau ymagwedd system gyfan tuag at iechyd a llesiant plant.

Caiff grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ei gadeirio ar y cyd gan y Gweinidog dros Addysg a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n dwyn ynghyd ystod o randdeiliaid, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru a Chadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n cynnwys Aelodau o'r holl bleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad.

Cefnogir y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol gan grŵp cyfeirio rhanddeiliaid, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ystod eang o asiantaethau, yn ogystal â grŵp cyfeirio rhanddeiliaid ifanc, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i ddweud eu dweud yn uniongyrchol i helpu i lywio gwaith sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Mae'r buddsoddiad o £7.1 miliwn yn ychwanegol at y £1.4 miliwn a fuddsoddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn rhaglen o [wasanaethau iechyd meddwl mewn ysgolion](#) i gryfhau'r gefnogaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) mewn ysgolion mewn pedair ardal beilot ledled Cymru. Mae cynlluniau peilot CAMHS yn canolbwyntio'n benodol ar ymgynghori, cysylltu a chynghori, gan helpu i nodi achosion a sicrhau ymyrraeth gynnar.

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi ymrwymo'n gyhoeddus i fonitro cynnydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog dros Addysg wrth iddynt weithredu'r argymhellion yn ei adroddiad, 'Cadernid Meddwl', eleni.



Ein cyf/Our ref VG/03900/18

David John Rowlands AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

[Government.Committee.Business@llyw.cymru](mailto:Government.Committee.Business@llyw.cymru)

12 Rhagfyr 2018

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Tachwedd ynglŷn â *Deiseb P-05-857 Dylid creu Tasglu Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Plant* oddi wrth y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Plant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod iechyd meddwl fel un o'i chwe blaenoriaeth genedlaethol yn *Ffyniant i Bawb* ac rwy'n llwyr gydnabod pwysigrwydd cefnogi llesiant emosiynol ein plant a'n pobl ifanc. Mae gan ysgolion swyddogaeth hanfodol i'w chyflawni i sylwi ar broblemau yn gynnar a helpu i arfogi plant a phobl ifanc â ffyrdd o ddygymod â'r straen o dyfu i fyny.

Ym mis Medi 2017, lansiais i ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg brosiectau peilot mewn tair ardal i roi cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl arbenigol mewn ysgolion a meithrin perthynas sy'n ymestyn o'r ystafell ddosbarth i'r gwasanaethau arbenigol hynny. Mae cynlluniau peilot mewngymorth CAMHS yn canolbwyntio'n benodol ar ymgynghori, meithrin cysylltiadau a sylwi ar y rheini sydd angen cymorth ac ymyrryd yn gynnar.

Gan adeiladu ar y gweithgarwch hwn ac yn sgil cyhoeddi'r adroddiad *Cadernid Meddwl* gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol:

<https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11522/cr-ld11522-w.pdf>, rydw i ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi bod yn meddwl beth arall allwn ni ei wneud i sicrhau bod pethau'n newid yn gyflymach yn y maes hwn, a defnyddio agwedd ysgol a system gyfan at iechyd a llesiant. Wedi hyn, cyhoeddom ym mis Medi 2018 y byddem yn cynnull Cyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidogion, a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Hydref, i'n cynghori ar sut i symud ymlaen gyda'r gwaith hwn. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gennyf i a'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac mae'n tynnu ynghyd y rheini sy'n gweithio mewn addysg ac iechyd ac yn y sector cyhoeddus yn ehangach a'r trydydd sector, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gwaith y grŵp hwn yn cael ei wneud fel ymateb i *Cadernid Meddwl*, a bydd yr adroddiad hwnnw hefyd yn sylfaen iddo. Roedd yr adroddiad yn galw am nodi bod llesiant a chadernid emosiynol ac iechyd yn flaenoriaeth genedlaethol ac roedd yn cynnwys argymhellion ar sut y gellid datblygu hyn.

Bydd y grŵp newydd yn ymchwilio i sut y gellir dod â gwahanol weithgarwch sy'n cael ei wneud eisoes ynghyd, tynnu sylw at unrhyw fylchau mewn darpariaeth a sicrhau bod egni ac adnoddau yn cael eu targedu i gyflawni'r budd mwyaf posibl. Bydd yn edrych ar y cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu ac yn ystyried materion fel hyfforddiant i staff.

Bydd y grŵp yn cael cymorth grŵp cyfeirio rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau bod yr holl asiantaethau sydd â rhan wrth gyflawni dull ysgol gyfan yn cael eu cynnwys yn briodol yn y rhaglen. Elfen ganolog o hyn yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfrannu eu sylwadau i helpu gyda'r gweithgaredd sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt. I'r perwyl hwn, rydym yn recriwtio pobl ifanc ar hyn o bryd i ymuno â fforwm pobl ifanc, a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar sut fydd orau i ddatblygu'r agenda hon.

Hyderaf fod hyn yn rhoi tawelwch meddwl ichi fod gwella iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yn dal yn flaenoriaeth a'n bod wedi sefydlu trefniadau newydd i gryfhau gwaith ar y cyd a sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau'n gyflymach.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services



22<sup>nd</sup> January 2019

Dear David Rowlands AM,

**Ref: Petition number P-05-857 calling for a National Task force for Children's Mental Health**

We would like to thank you and all the members of the Petitions Committee for considering this petition. Furthermore we would like to thank Vaughan Gething AM for his comprehensive response to your request for information in relation to the issues raised by the petition asking the National Assembly for Wales to urge the Welsh Government to create a National Task Force for Children's Mental Health. Additionally, we are very grateful for the support the petition received across Wales, with residents from every electoral region signing it. Below is our response to Vaughan Gething's letter dated 12<sup>th</sup> December 2018 in relation to the petition.

- 1) We commend the Welsh Government for including mental health as one of its priority areas in its *Prosperity for All* strategy, and thank Vaughan Gething AM for recognising the importance of supporting the emotional well-being of children and young people. However, with almost 25% (\*1) of young people having experienced suicidal thoughts we believe that the **commitments made within the strategy are insufficient to prevent the continuing prevalence of serious mental health issues among children and young people**. Placing a 'real and meaningful focus on well-being' (\*2) within the new curriculum and assessment arrangements is an important step as it could help develop the resilience of pupils, but it **fails to address the societal and cultural factors that are leading to the mental health issues being experienced by children and young people**. Furthermore, although ensuring 'teachers have the help and support they need to respond to children experiencing difficulties' (\*2) may improve the level of support provided to children and young people with mental health illnesses, this is not a preventative measure. Consequently, **this is a policy that will continue to incur escalating costs and utilise resources without reducing the number of young people experiencing difficulties with their mental health**.
- 2) We agree with Vaughan Gething AM that schools have a crucial role to play in identifying problems early and helping to provide children and young people with the tools to cope with the stresses of growing up. However, it is important to remember that **not all children and young people attend school**. We welcome the pilot projects launched by Vaughan Gething AM and the Cabinet Secretary for Education to build relationships which extend from the classroom to specialist mental health services. Nevertheless, **a National Task Force for children's mental health could provide a robust Wales specific evidence base and substantive, cost-efficient, long-term recommendations that, if implemented, could significantly reduce the number of children and young people requiring treatment for mental health problems**.
- 3) The *Mind over Matter* report referred to by Vaughan Gething AM is another important element in helping to create a culture where young people feel supported and not stigmatised if they are suffering with their mental health. Furthermore, the promotion of 'good mental health' (\*3) and improved signposting to services are welcomed by us. However, **with the number of referrals to children's mental health services having already doubled in Wales in recent years (\*2), such an approach is incomplete and insufficient; and may leave service users and providers frustrated by an ongoing deficiency in the level of support and resources available**.



- 4) The establishment of the Joint Ministerial Task and Finish Group announced by Vaughan Gething AM and the Cabinet Secretary for Education in September 2018 is an important response to the *Mind over Matter* report and fulfils **some** of the remit that a National Task Force for Children's Mental Health would encompass. We particularly welcome the Welsh Government's commitment to taking the opinions of children and young people into account during their work. Evolving this Task and Finish Group into the National Task Force that residents from every region in Wales have called for by signing our petition could support the ambition of the *Prosperity for All* strategy and **intensify the work currently being done as a consequence of the *Mind over Matter* report.**
- 5) If part of the £7 million to improve children and young people's mental health, announced by Vaughan Gething AM earlier this month, was used to expand the Task and Finish Group into the National Task Force proposed by the petition then this could **provide a comprehensive and extensive development of policies that build on the *Prosperity for All* strategy, the *Mind over Matter* report, the pilot projects, and the work-to date of the Task and Finish Group itself.**
- 6) Just as Wales has led the world in other areas of policy relating to children and young people – for example, by incorporating the UNCRC into domestic law and the passing of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 – a National Task Force for children's mental health as outlined in the petition would likewise demonstrate our determination as a country to create and sustain a culture in which every child and young person has the opportunity to thrive and fulfil their potential. By establishing this National Task Force, the Welsh Government **could transform the outcomes of a considerable number of children, young people and their families.** Furthermore, **this cross-party, cross-society approach could dramatically reduce the number of children and young people needing to access treatment for their mental health.** Consequently, **resources that are currently over-stretched would become available to provide a rehabilitated, augmented service to those in need of help and support in the future.**

I believe that the evidence above provides a balanced analysis that explains how a National Task Force for children's mental health could build upon and enhance the existing work of the Welsh Government in this area; and the significant impact that it could have on supporting the mental health and wellbeing of children and young people throughout Wales, particularly through the development of preventative measures. It is evident that Vaughan Gething AM and the Welsh Government take the issue of poor mental health among children and young people very seriously and have taken important and significant action to tackle the problems presented. We believe that a National Task Force for children's mental health would reinforce this commitment and provide a comprehensive strategy to further strengthen and increase the pace of work.

If any further input from me would assist you and/or the committee please do not hesitate to contact me at [contact@nocmh.com](mailto:contact@nocmh.com). I look forward to hearing the outcome of your considerations in relation to this petition.

Yours sincerely

*Geraint D. Evans*

Managing Director



- \*1 [https://youngminds.org.uk/find-help/feelings-and-symptoms/suicidal-feelings/?gclid=EAlalQobChMI6\\_OeuJSB4AIVC-DICh06dgKuEAAYAiAAEgJKRPD\\_BwE](https://youngminds.org.uk/find-help/feelings-and-symptoms/suicidal-feelings/?gclid=EAlalQobChMI6_OeuJSB4AIVC-DICh06dgKuEAAYAiAAEgJKRPD_BwE)
- \*2 <https://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-en.pdf>
- \*3 <https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11522/cr-ld11522-e.pdf>

**P-05-860 Dylid gwneud Gwersi Sgiliau Bywyd yn Orfodol ar y cwricwlwm**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Emily Jones, wedi iddi gasglu 121 o lofnodion ar-lein a 165 ar bapur, sef cyfanswm o 286 o lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod gwersi sgiliau bywyd yn orfodol ar y cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd drwy Gymru ac y caiff y cynnwys ei adolygu bob blwyddyn gan fwrdd o bobl ifanc etholedig.

### **Gwybodaeth ychwanegol**

Byddai cwricwlwm sgiliau bywyd yn cynnwys pynciau fel: cyllid, rhyw a pherthnasoedd, gwleidyddiaeth a sgiliau byw sylfaenol. Mae Erthygl 28 o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Plant yn dweud bod gan blant yr hawl i addysg. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol, fodd bynnag, yn methu â darparu'r sgiliau bywyd y mae eu hangen arnom.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pontypridd
- Canol De Cymru

# Dylid gwneud Gwersi Sgiliau Bywyd yn Orfodol ar y cwricwlwm

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Ionawr 2019  
Petitions Committee | 29 January 2019

## Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-860

Teitl y ddeiseb: Dylid gwneud Gwersi Sgiliau Bywyd yn Orfodol ar y cwricwlwm

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod gwersi sgiliau bywyd yn orfodol ar y cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd drwy Gymru ac y caiff y cynnwys ei adolygu bob blwyddyn gan fwrdd o bobl ifanc etholedig.

Byddai cwricwlwm sgiliau bywyd yn cynnwys pynciau fel: cyllid, rhyw a chydberthynas, gwleidyddiaeth a sgiliau byw sylfaenol. Mae Erthygl 28 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant yn dweud bod gan blant yr hawl i addysg. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol, fodd bynnag, yn methu â darparu'r sgiliau bywyd y mae eu hangen arnom.

## Y cwricwlwm presennol – Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)

Mae ABCh yn ofyniad cwricwlwm statudol ac mae'n rhan o'r cwricwlwm sylfaenol i'r holl ddisgyblion cofrestredig sy'n oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir. Penaethiaid a'u llywodraethwyr sy'n gwneud penderfyniadau ar gynnwys a model cyflwyno rhaglen ABCh ysgol, gan weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill. Mae ysgolion yn defnyddio'r [fframwaith ABCh anstatudol](#) (2008) i adolygu a datblygu eu rhaglenni ABCh. Dylai athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, colegau a darparwyr addysg eraill seilio eu darpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol ar y ddogfen hon.

Mae'r fframwaith yn nodi nodau ABCh:

- datblygu hunan-dyb y dysgwyr a'u hymdeimlad o gyfrifoldeb personol
- hybu hunan-barch, parch at eraill a dathlu amrywiaeth
- galluogi dysgwyr i fyw bywydau diogel ac iach
- paratoi'r dysgwyr ar gyfer y dewisiadau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â dysgu gydol oes



- galluogi'r dysgwyr i gyfranogi yn eu hysgolion a'u cymunedau fel dinasyddion gweithgar a chyfrifol yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- meithrin agweddau ac ymddygiad cadarnhaol tuag at egwyddorion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang
- paratoi'r dysgwyr ar gyfer y sialensau, y dewisiadau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gwaith a bywyd oedolyn.

Yn ei llythyr at y Pwyllgor, mae'r Gweinidog Addysg yn dweud y gallai nifer o feysydd y mae'r deisebydd yn sôn amdanynt, megis addysg ariannol a gwleidyddiaeth, gael eu haddysgu drwy ABCh.

Mewn perthynas ag addysg rhyw a chydberthynas, o dan ddarpariaethau [Deddf Addysg 2002](#) mae'n ofynnol i'r holl ysgolion **uwchradd** a gynhelir gynnwys, fel rhan o gwricwlwm sylfaenol yr ysgol, addysg rhyw i ddisgyblion cofrestredig.

Nid yw'n ofynnol i ysgolion cynradd ddarparu addysg rhyw fel rhan o'r cwricwlwm sylfaenol, er y cânt wneud hynny yn ôl eu disgrisiwn. Mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plant yn ôl o unrhyw elfen o addysg rhyw nad yw'n rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol.

## Adolygiad yr Athro Donaldson o'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, y byddai'r Athro Graham Donaldson yn cynnal adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru. Yn ei adroddiad ar y cwricwlwm, sef [Dyfodol Llwyddiannus](#) (Chwefror 2015), daeth yr Athro Donaldson i'r casgliad a ganlyn:

Gyda'i gilydd, nid yw'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu presennol **yn cwrdd bellach ag anghenion** plant a phobl ifanc Cymru. Mae'r **ddadl o blaid newid sylfaenol** yn un rymus. [Fy mhwyslais i]

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r **pedwar diben** canlynol o'r cwricwlwm newydd yn ôl argymhellion yr Athro Donaldson. Y rhain yw y bydd yr holl blant a phobl ifanc sy'n cwblhau eu haddysg:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.
- **yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.**
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Y bwriad yw y bydd y cwricwlwm newydd â mwy o bwyslais ar roi i bobl ifanc y sgiliau angenrheidiol ar gyfer bywyd.

Awgrymodd yr Athro Donaldson y dylid trefnu'r cwricwlwm ar sail chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh). Y chwe maes, fel y'u nodir gan Lywodraeth Cymru yn [Cwricwlwm i Gymru: Cwricwlwm am Oes](#) yw:

- Celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Dyniaethau
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg.

Caiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno'n statudol ym mis Medi 2022. I ddechrau, dim ond mewn ysgolion cynradd a Blwyddyn 7 y caiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno ym mis Medi 2022, cyn ei gyflwyno i Flwyddyn 8 ar gyfer 2023, Blwyddyn 9 ym 2024, ac yn y blaen wrth i'r garfan symud drwy'r system.

Cyn ei gyflwyno'n statudol, bydd y cwricwlwm newydd ar gael i ysgolion roi adborth, ei brofi a'i fireinio o fis Ebrill 2019, cyn cyhoeddi fersiwn derfynol i'r ysgolion ei ddefnyddio o fis Ionawr 2020.

Mewn ymateb i adroddiad y Panel Arbenigol Addysg Rhyw a Chydberthynas, sef [Llywio dyfodol y cwricwlwm addysg rhyw a chydberthynas yng Nghymru \(Saesneg yn unig\)](#) (Rhagfyr 2017), mae'r Gweinidog Addysg wedi cadarnhau y bydd addysg chydberthynas a rhywioldeb yn rhan o'r cwricwlwm newydd.

## Deiseb yn y Pedwerydd Cynulliad

Ym mis Mehefin 2015, trafododd Pwyllgor Deisebau'r Pedwerydd Cynulliad ddeiseb yn galw am addysg rhyw a chydberthynas statudol i bob ysgol a sefydliad addysgol yng Nghymru ([P-04-636](#)). Roedd prif ffocws y ddeiseb yn ymwneud â darparu addysg sy'n ymwneud â materion pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thraws. Bryd hynny, dywedodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, wrth y Pwyllgor fod y cwricwlwm presennol yn hyblyg i alluogi addysgu'r materion hyn ac y byddai'r cwricwlwm newydd, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn galluogi gwaith ymgysylltu ystyrllon ag ysgolion a phartneriaid eraill. Daeth y ddeiseb i ben ym mis Medi 2015.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-860  
Ein cyf/Our ref KW/02719/18

David John Rowlands AC  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

[Government.Committee.Business@gov.wales](mailto:Government.Committee.Business@gov.wales)

19 Rhagfyr 2018

Annwyl David

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 4 Rhagfyr yn gofyn am fy sylwadau ar y materion a godwyd yn *Neiseb P-95-860 Dylid gwneud Gwersi Sgiliau Bywyd yn Orfodol ar y cwricwlwm*. Rydych yn cyfeirio'n benodol at y materion y mae'n eu codi, megis cyllid, rhyw a pherthnasoedd, gwleidyddiaeth a sgiliau byw sylfaenol.

## Y cwricwlwm presennol

### Addysg Rhyw a Pherthnasoedd

Mae Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn un o'r meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgwyr 3-7 oed. Mae plant yn dysgu amdanynt eu hunain a'u perthynas â phlant eraill ac oedolion o fewn y teulu a'r tu allan iddo. Mae Addysg Personol a Chymdeithasol (ABCh) yn rhan o'r cwricwlwm ar gyfer pob disgybl cofrestredig 7 i 16 oed mewn ysgolion a gynhelir. Ei nod yw paratoi dysgwyr i fod yn effeithiol yn bersonol ac yn gymdeithasol drwy ddarparu profiadau dysgu lle gallant ddatblygu a defnyddio sgiliau, archwilio agweddau a gwerthoedd personol, a chaffael gwybodaeth a dealltwriaeth briodol. Diben y fframwaith ABCh yw helpu ysgolion i gynllunio eu rhaglen ABCh er mwyn sicrhau bod yr addysg yn cael ei chyflwyno mewn modd eang, cyfannol a chytbwys. Mae gan ysgolion yr hyblygrwydd i ddewis pynciau priodol o'r fframwaith fel cyd-destunau ar gyfer dysgu. Cyfrifoldeb yr ysgol yw cynllunio a darparu rhaglen eang a chytbwys i ddiwallu anghenion eu dysgwyr. Gall ysgolion weithio gyda sefydliadau arbenigol ar agweddau ar y ddarpariaeth ABCh.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## **Addysg Ariannol**

Mae'r fframwaith ABCh yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o rôl a phwysigrwydd arian. Mae'n eu helpu i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau fel defnyddwyr a meithrin gallu ariannol a fydd yn eu galluogi i ffurfio barn effeithiol a gwneud penderfyniadau effeithiol mewn perthynas â materion economaidd. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae dysgwyr yn cael cyfle i ddeall pwysigrwydd gofalu am eu harian a'r manteision sy'n gysylltiedig â chynilo arian yn rheolaidd. Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae dysgwyr yn cael cyfle i ddeall canlyniadau economaidd a moesegol y penderfyniadau ariannol personol y maent yn eu gwneud fel defnyddwyr, gan ystyried cynlluniau fel Masnach Deg. Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae dysgwyr yn cael cyfle i ddysgu am eu hawliau fel defnyddwyr a'u cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb, a hefyd am bwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol a sut i gael gafael ar gyngor ariannol. Yn olaf, mae dysgwyr ôl-16 yn cael cyfle i werthuso cyngor ariannol, cymryd cyfrifoldeb personol am waith cynllunio ariannol, a rheoli'u materion ariannol personol yn effeithiol. Nid yw addysg ariannol yn cael ei addysgu drwy ABCh yn unig; mae wedi bod yn rhan o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru ers 2008 ac yn ofyniad statudol yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer dysgwyr 5 i 14 oed, drwy'r elfen 'Rheoli arian', ers mis Medi 2013.

## **Gwleidyddiaeth**

Caiff dysgwyr gyfle i archwilio gwleidyddiaeth yn y cwricwlwm presennol drwy Fagloriaeth Cymru ac ABCh. Mae'r thema 'Dinasyddiaeth Weithgar' yn y fframwaith ABCh yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth o wleidyddiaeth, cyflogaeth a'u hawliau mewn cymdeithas ddemocrataidd sy'n adlewyrchu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Maent hefyd yn meithrin gwybodaeth ymarferol o'u hawliau, a'r cyswllt rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau eu hunain.

## **Y cwricwlwm newydd**

Mae pedwar diben yn ganolog i'r cwricwlwm newydd, a'r rheini yw'r man cychwyn wrth wneud pob penderfyniad ar y cynnwys a'r profiadau a gaiff eu datblygu fel rhan o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Fe'u cynlluniwyd i fod yn sail i'r holl addysgu a dysgu yng Nghymru.

Dibenion y cwricwlwm yng Nghymru yw y dylai plant a phobl ifanc ddatblygu:

- Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- Yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd
- Yn unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bydd y cwricwlwm newydd yn darparu cyfleoedd eang a dilys ar gyfer y pynciau penodol rydych yn sôn amdanynt.

## **Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhan o'r cwricwlwm newydd ar gyfer dysgwyr 3-16 oed. Mae hyn yn ymateb i argymhellion y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Chydberthynas a gadeiriwyd gan yr Athro Emma Renold o Brifysgol Caerdydd, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017.

Caiff Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei datblygu drwy ddull gweithredu rhyngddisgyblaethol a chyfannol, fel yr argymhellwyd gan y panel arbenigol. Mae'r ysgolion arloesi, sy'n datblygu'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, wedi bod yn gweithio gydag arbenigwyr (gan gynnwys yr Athro Renold) i wreiddio dysgu ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd.

## Llythrennedd Ariannol

Ymdrinnir â chyllid, neu lythrennedd ariannol, mewn mwy nag un Maes Dysgu a Phrofiad. Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw helpu dysgwyr i fod yn unigolion iach a hyderus sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd bob dydd mor annibynnol ag y gallant. Mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn trafod pwysigrwydd gallu ariannol yn y Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd, gan danlinellu ei bod yn bwysig i ddysgwyr "gael yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i drefnu materion ariannol personol yn awr ac yn y dyfodol". Mae llythrennedd ariannol hefyd yn berthnasol i'r Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles a'r Dyniaethau. Yn hyn o beth, bydd elfennau o lythrennedd ariannol mewn sawl Maes Dysgu a Phrofiad gan gefnogi dull gweithredu rhyngddisgyblaethol a chyfannol.

## Gwleidyddiaeth

Mae dealltwriaeth o wleidyddiaeth yn hollbwysig er mwyn bod yn 'ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd'. Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn ceisio helpu dysgwyr i ddeall ffactorau hanesyddol, daearyddol, gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol ac yn cynnig cyfleoedd iddynt ddatblygu a chymryd rhan mewn trafodaethau gwybodus am foeseq, credoau, crefydd ac ysbrydolrwydd.

## Sgiliau bywyd

Mae'r cwricwlwm newydd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu ystod o 'sgiliau ehangach' y credir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer bywyd a gwaith yn y byd modern. Yn ôl un o argymhellion *Dyfodol Llwyddiannus* 'Dylai...sgiliau ehangach gael eu cynnwys yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad'. Mae'n pwysleisio y dylid addysgu sgiliau ehangach o ddechrau'r cyfnod mewn ysgol yn hytrach nag ym Mlwyddyn 10 fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'r sgiliau ehangach hyn yn cynnwys:

- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Cynllunio a threfnu
- Creadigrwydd ac arloesedd
- Effeithiolrwydd personol

Mae paratoi dysgwyr ar gyfer byd gwaith yn elfen bwysig o'r cwricwlwm newydd. Mae pob grŵp arloesi'n ystyried sut all eu Maes Dysgu a Phrofiad helpu i gyflawni'r nod o weld dysgwyr yn datblygu 'gyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith'.

Yn gyffredinol, cytunwyd ar yr egwyddorion canlynol:

- Dylai'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ymdrin â'r cyfeiriad at 'dysgu a phrofiad cysylltiedig â gwaith' yn *Dyfodol Llwyddiannus* o ran sgiliau bywyd e.e. cadernid, gwydnwch a chwilfrydedd. Bydd yna hefyd orgyffwrdd naturiol â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill.
- Dylai pob Maes Dysgu a Phrofiad dynnu ar gyfleoedd i wneud cysylltiadau rhwng eu datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r byd gwaith. Caiff hyn ei wneud drwy wreiddio'r sgiliau ehangach a'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn effeithiol a thynnu sylw at wybodaeth, sgiliau a phrofiadau allweddol sy'n hanfodol i ddatblygu gyrfaoedd sy'n ymwneud â'r Maes Dysgu a Phrofiad.
- Bydd angen canllawiau ychwanegol ar ysgolion i ddarparu'r elfen hon yn briodol. Mae agweddau penodol ar y fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a fydd yn cael ei ddarparu drwy'r Maes Dysgu a Phrofiad e.e. dewisiadau gyrfa ac academaidd, profiad gwaith, cyngor ar yrfaoedd etc.


Bydd Papur Gwyn yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd yn gofyn am sylwadau ar y cynigion deddfwriaethol i ategu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd. Bydd y cynigion hyn yn cefnogi'r argymhellion a nodir yn *Dyfodol Llwyddiannus* y dylai pob dysgwr gael cwricwlwm eang a chythwys sydd wedi'i gynllunio i gyflawni'r pedwar diben, ac

sy'n ymgorffori'r syniad o'r hawl i gael addysg a phrofiadau ym mhob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad drwy gydol y cyfnod mewn addysg statudol.

Mae *Dyfodol Llwyddiannus* wedi ein herio i ailystyried y cwricwlwm, ac mae'n ei gwneud yn glir fod y rhagnodi a'r manylu helaeth ar lefel genedlaethol yn cyfyngu ar "*y llif a'r dilyniant yn y dysgu gan blant a phobl ifanc*". Oherwydd hynny, rhaid inni sicrhau nad yw'r cwricwlwm newydd yn cynnig rhestr gynhwysfawr o bethau manwl i'w cynnwys a fyddai'n gyflym yn mynd yn gymhleth ac yn ormod. Rhaid i'r cwricwlwm ganiatáu i weithwyr proffesiynol fod yn hyblyg o ran dewis cynnwys penodol sy'n bodloni anghenion eu dysgwyr yn eu cyd-destun penodol nhw. Yn yr un modd, bydd yr hyblygrwydd hwnnw'n rhoi ymreolaeth i weithwyr proffesiynol ystyried materion fel y rheini a godwyd yma.

Byddwn yn ymgysylltu â phobl ifanc yn ystod y broses o roi adborth a chyd-ddatblygu.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

### **P-05-861 Gwneud addysg wleidyddol yn elfen orfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol newydd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Kaiesha Ceryn Page, ar ôl casglu 117 o lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb**

Dylai addysg roi'r sgiliau a'r offer i bobl ifanc a fydd yn sicrhau eu bod yn dod yn ddinasyddion gwerthfawr sy'n ymgysylltu â'r wlad.

Er gwaethaf y datblygiadau mawr sydd wedi digwydd yn sgil y cyfryngau cymdeithasol a chylchoedd newyddion cyflym, mae pobl ifanc yn aml yn ystyried gwleidyddiaeth yn bwnc tabŵ, gan ei weld fel mater nad ydyw i'w tebyg hwy.

Rydym yn credu y dylai pobl ifanc adael addysg gyda dealltwriaeth gynhwysfawr o sefydliadau gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig. Argymhellodd adroddiad y Gymdeithas Diwygio Etholiadol y dylid addysgu pedair agwedd allweddol mewn ysgolion – y pleidiau, democratiaeth, rôl sefydliadau ac ymgyrchu.

Ar hyn o bryd, mae gan Lywodraeth Cymru gyfle unigryw i arwain y ffordd ar y mater hwn gan ei bod wrthi'n datblygu ei chwricwlwm cenedlaethol cyntaf. Fel un o'i bedwar cysyniad allweddol, nod y cwricwlwm newydd yw creu dinasyddion "moesegol a gwybodus". Felly mae rheswm yn dweud y dylai addysg wleidyddol fod yn rhan hanfodol o hyn.

Mae datblygiad y cwricwlwm hwn yn gyfle unigryw i Lywodraeth Cymru chwyldroi'r ffordd y mae'n addysgu ei phobl ifanc, gan greu'r dinasyddion a fydd yn arweinwyr y dyfodol.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Rhondda
- Canol De Cymru

## Addysg wleidyddol

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Ionawr 2019

Petitions Committee | 29 January 2019

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-861

Teitl y ddeiseb: Gwneud addysg wleidyddol yn elfen orfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol newydd.

Testun y ddeiseb: Dylai addysg roi'r sgiliau a'r offer i bobl ifanc a fydd yn sicrhau eu bod yn dod yn ddinasyddion gwerthfawr sy'n ymgysylltu â'r wlad. Er gwaethaf y datblygiadau mawr sydd wedi digwydd yn sgil y cyfryngau cymdeithasol a chylchoedd newyddion cyflym, mae pobl ifanc yn aml yn ystyried gwleidyddiaeth yn bwnc tabŵ, gan ei weld fel mater nad ydyw i'w tebyg hwy.

Rydym yn credu y dylai pobl ifanc adael addysg gyda dealltwriaeth gynhwysfawr o sefydliadau gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig. Argymhellodd adroddiad y Gymdeithas Diwygio Etholiadol y dylid addysgu pedair agwedd allweddol mewn ysgolion - y pleidiau, democratiaeth, rôl sefydliadau ac ymgyrchu.

Ar hyn o bryd, mae gan Lywodraeth Cymru gyfle unigryw i arwain y ffordd ar y mater hwn gan ei bod wrthi'n datblygu ei chwricwlwm cenedlaethol cyntaf. Fel un o'i bedwar cysyniad allweddol, nod y cwricwlwm newydd yw creu dinasyddion "moesegol a gwybodus". Felly mae rheswm yn dweud y dylai addysg wleidyddol fod yn rhan hanfodol o hyn.

Mae datblygiad y cwricwlwm hwn yn gyfle unigryw i Lywodraeth Cymru chwyldroi'r ffordd y mae'n addysgu ei phobl ifanc, gan greu'r dinasyddion a fydd yn arweinwyr y dyfodol.

#### 1. Cynnwys y cwricwlwm

Ar hyn o bryd, mae cwricwlwm ysgol Cymru yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddeall egwyddorion a system democratiaeth, gan gynnwys sut y gall pobl ifanc ddylanwadu ar y gwaith o wneud penderfyniadau. Yn bennaf, mae ysgolion yn trafod y pynciau hyn trwy addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ac yn canolbwyntio ar ddatblygu 'Dinasyddiaeth Weithgar', sy'n un o'r pum thema yn [Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru \(2008\)](#) anstatudol Llywodraeth Cymru.



Mae ABCh yn ofyniad cwricwlwm statudol ac mae'n rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob disgybl cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir sydd o oedran ysgol gorfodol. Penaethiaid a'u llywodraethwyr sy'n gyfrifol am benderfynu ar union gynnwys a model cyflwyno rhaglen ABCh yr ysgol, gan weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill.

O fewn elfen 'Dinasyddiaeth Weithgar' y fframwaith ABCh, dylai dysgwyr 'ddatblygu dealltwriaeth ymarferol o'u hawliau a'r **cysylltiadau rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau eu hunain**'.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddeall **'pwysigrwydd gwneud penderfyniadau mewn modd democrataidd'**. Yng Nghyfnod Allweddol 3, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddeall:

- egwyddorion democratiaeth yng Nghymru, y DU a'r UE;
- sut y caiff cynrychiolwyr, e.e. Cyngor Ysgol, Fforwm Ieuencid, Y Ddraig Ffynci, Cynghorwyr, Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol, Aelodau Seneddol Ewropeaidd, eu hethol, a deall eu swyddogaethau
- sut y gall pobl ifanc leisio'u barn a dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddeall **'pwysigrwydd cymryd rhan mewn etholiadau democrataidd** a'r cysylltiadau rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau eu hunain'.

Mae [Deddf Addysg 1996](#) yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol **sicrhau bod disgyblion yn cael barn gytbwys os cânt eu haddysgu ynghylch democratiaeth a gwleidyddiaeth**. Mae Adran 406 o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid i wahardd disgyblion iau rhag dilyn gweithgareddau gwleidyddol pleidiol yn yr ysgol. Mae hefyd yn gwahardd hyrwyddo safbwyntiau gwleidyddol pleidiol wrth addysgu unrhyw bwnc i unrhyw ddisgybl. Lle mae gweithgareddau yn cael eu cynnal i ffwrdd o safle'r ysgol, ni chaniateir i ddisgyblion iau gymryd rhan os ydynt wedi'u trefnu gan unrhyw aelod o staff mewn ysgol neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran yr ysgol.

## 2. Cwricwlwm Newydd i Gymru (i'w gyflwyno o fis Medi 2022)

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r proffesiwn addysg i ddatblygu cwricwlwm newydd, yn dilyn adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson o drefniadau cwricwlwm ac asesu a'i adroddiad dilynol, [Dyfodol Llwyddiannus](#) (Chwefror 2015).

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r **pedwar diben** canlynol o'r cwricwlwm newydd fel yr argymhellwyd gan yr Athro Donaldson, sef y bydd pob plentyn a pherson ifanc sy'n cwblhau eu haddysg yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau.
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

- Dinasyddion gwybodus, moesegol, sydd yn barod i fod yn ddinasyddion o Gymru a'r byd.
- Unigolion iach hyderus sydd yn barod i arwain bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi mabwysiadu'r **chwe Maes Dysgu a Phrofiad** a argymhellwyd gan yr Athro Donaldson:

- Celfyddydau Mynegiannol
- **Iechyd a Lles**
- **Dyniaethau**
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno'n statudol ym mis Medi 2022. Bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno i ddechrau mewn ysgolion cynradd a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2022, cyn cael ei gyflwyno i flwyddyn 8 ar gyfer 2023, blwyddyn 9 yn 2024, ac yn y blaen wrthi'n garfan symud drwy'r ysgol.

Cyn iddo gael ei gyflwyno'n statudol, bydd y cwricwlwm newydd ar gael i ysgolion adborth yn ôl, profi a mireinio **o fis Ebrill 2019**, cyn i fersiwn derfynol gael ei gyhoeddi y gall ysgolion gael gafael arni o fis Ionawr 2020.

Mae ysgolion arloesi yn cydweithio â Llywodraeth Cymru, consortia addysg rhanbarthol ac arbenigwyr a chynghorwyr drwy **chwe Gweithgor** – un ar gyfer pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd. Mae'r grwpiau hyn wedi llunio **datganiadau 'Beth sy'n Bwysig?'** yn nodi'r syniadau diweddaraf ar gynnwys y cwricwlwm a phynciau allweddol.

Yn eu [datganiad 'Beth sy'n Bwysig?'](#), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, nododd y Gweithgor Meysydd Dysgu a Phrofiad Dyniaethau y canlynol ymysg y dibenion ar gyfer maes hwn o'r cwricwlwm:

Drwy ddeall a pharchu gwahanol gredoau a **deall sut i arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau democrataidd**, bydd disgyblion yn dod yn ddinasyddion moesegol, hyddysg.

Drwy **arddel barn bersonol** am faterion yn ymwneud â ffydd, ysbrydolrwydd, cynaliadwyedd a chynhwysiant cymdeithasol byddant yn dod yn unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae datganiad y grŵp hefyd yn cynnig:

Bydd disgyblion yn:

- deall cysyniadau hanesyddol, daearyddol, **gwleidyddol**, economaidd, crefyddol a chymdeithasol.
- archwilio eu hamgylchedd er mwyn datblygu eu hymdeimlad o le a lles ymhellach.

- cymryd rhan mewn profiadau dysgu am hawliau, gwerthoedd, moeseg, credoau, crefydd, athroniaeth ac ysbrydolrwydd.
- ystyried, archwilio a **gwneud dewisiadau hyddysg** ynghylch cynaliadwyedd a'r effaith ar eu gweithredoedd.
- gwneud cyfraniad cadarnhaol at eu cymuned ac ymgysylltu â materion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ar lefel gritigol er mwyn dod yn ddinesydd cyfrifol yng Nghymru a thu hwnt.

### 3. Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol

